**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** **HSS(2)-03-03(p.9)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 16 Gorffennaf 2003**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora , Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Blaenraglenni gwaith pwyllgorau eraill**

**Pwrpas**

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd y Pwyllgor i ystyried blaenraglenni gwaith strategol drafft pwyllgorau pwnc eraill ar gyfer y cyfnod hyd at Ragfyr 2004.

**Y Cefndir**

2. O dan Reol Sefydlog 9.9, mae'n ofynnol i'r pwyllgorau pwnc gynnal rhaglen waith dreigl a fydd yn ymestyn dros gyfnod o 12 mis o leiaf. Bydd y pwyllgorau pwnc hefyd yn gwahodd sylwadau pwyllgorau eraill a Chabinet y Cynulliad ar eu rhaglenni drafft, a byddant yn rhoi sylw i'r sylwadau hynny cyn penderfynu ar eu gwedd derfynol.

3. Amgaeir y blaenraglenni gwaith strategol ar gyfer y:

- Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon;
- Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes;
- Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad;
- Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus;
- Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

4. Ym mharagraff 5 o raglen y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, mae nifer o eitemau a fydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Efallai y bydd gan yr aelodau ddiddordeb hefyd yn adolygiad polisi'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar rai agweddau ar anghenion addysg arbennig.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor
9 Gorffennaf 2003

**PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON**

**BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL 2003-04**

**Rhagarweiniad**

1. Mae'r rhaglen waith hon yn nodi blaenoriaethau strategol y Pwyllgor dros y deuddeg i ddeunaw mis nesaf.

**Cylch gwaith a chyfrifoldebau**

2. Portffolio'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon sy'n sail i gylch gwaith y Pwyllgor, ac mae'n cynnwys: y celfyddydau, amgueddfeydd, henebion a llyfrgelloedd, ieithoedd Cymru, y cyfryngau a darlledu, chwaraeon a hamdden a materion loteri. Mae'r portffolio hefyd yn cynnwys goruchwylio naw corff cyhoeddus sy'n cael eu noddi gan y Cynulliad (CCNC) neu gyrff cyhoeddus sy'n cael cymorth grant.

3. Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheol Sefydlog 9, a dyma'r prif rai: datblygu polisi; craffu ar Weinidogion a chyrff perthnasol; a chraffu ar ddeddfwriaeth.

**Amcanion**

4. Bydd y Pwyllgor yn datblygu ffordd strategol o weithio ac yn anelu at gael cydbwysedd rhwng craffu ar y Gweinidog a chyfrannu at ddatblygu polisi trwy adolygiadau polisi'r pwyllgor.

Blaenoriaethau

5. Dyma fydd y blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod sydd i ddod:

- *Datblygu polisi (RhS 9.7(i))* - bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n ymwneud â datblygu polisi y gall effeithio fwyaf arnynt. Yn y cyfnod sydd i ddod mae'r Pwyllgor yn cynnig adolygu pynciau o'r meysydd polisi canlynol:

    - Diwylliant Cymreig cyfrwng Saesneg: llyfrau a gwaith ysgrifenedig (hydref 2003; cyflwyno adroddiad gerbron y cyfarfod llawn - gwanwyn 2004). Efallai yr ychwanegir adrannau pellach at yr adolygiad hwn (e.e. drama cyfrwng Saesneg; technoleg a chyfryngau newydd) yn y blynyddoedd nesaf.
    - Cyfraniad celfyddydau a chwaraeon i adfywio cymunedau (gwaith paratoadol - hydref 2003; adolygiad - gwanwyn 2004; adroddiad gerbron y cyfarfod llawn - haf 2004).

    Fel y bydd amser yn caniatáu, rhoddir ystyriaeth i adolygiadau o'r pynciau canlynol:
    - Cefnogaeth i'r diwydiant crefftau (ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, fel sy'n briodol).
    - Dulliau ar gyfer cydnabod a dathlu llwyddiannau diwylliannol a llwyddiannau ym maes chwaraeon.

- *Craffu ar y Gweinidog (RhS 9.7(ii))* - bydd y Gweinidog yn adrodd i'r Pwyllgor bob tair wythnos am ddatblygiadau cyfredol o fewn y portffolio. Bydd y Pwyllgor yn craffu ar y Gweinidog yng nghyd-destun y meysydd blaenoriaeth canlynol:
    - Gweithredu Diwylliant Cytûn / Cymru Greadigol

- Gweithredu Ein Hiaith: Ei Dyfodol / Iaith Pawb
- Annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff
- Cyflawni targedau ac ymrwymiadau o fewn y gyllideb
- Canlyniadau'r adolygiad ar yr amgylchedd hanesyddol
- Hyrwyddo celfyddydau ac artistiaid Cymru dramor
- [Cefnogaeth i gerddoriaeth draddodiadol]

- *Craffu ar gyrff perthnasol (RhS 9.7 (iii))* – bydd y Pwyllgor yn craffu ar Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad o fewn y portffolio trwy gyfrwng y cylch cynllunio ac adrodd blynyddol (cynlluniau corfforaethol ac adroddiadau blynyddol). Bydd y Pwyllgor hefyd yn craffu ar gyrff perthnasol trwy sesiynau craffu "ad hoc" ar bynciau penodol.  Gall y sesiynau hyn gynnwys:
  - ariannu ac ymarferoldeb yr Ardd Fotaneg Genedlaethol.
  - adolygiad Cyngor Celfyddydau Cymru o gelf gyhoeddus;
  - adolygiad Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru o arddangos celf.

- *Craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru (RhS 9.8(1) a 22)* - bydd y Gweinidog yn darparu atodlenni cyson o'r is-ddeddfwriaeth arfaethedig a bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol sydd ar y gweill. Bydd y Pwyllgor yn nodi'r is-ddeddfwriaeth lle y gellid effeithio ar y cynnwys, a bydd hefyd yn ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft y cyfeirir ati gan y Dirprwy Lywydd, fel sy'n briodol.  Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro hynt y Mesur Cyfathrebu a'r Mesur Trwyddedu.

- ***Eitemau eraill (RhS 9.*8) - bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr eitemau canlynol wrth iddynt godi:**

  - *cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad* (RhS 9.8(ii)) – bydd y Pwyllgor yn nodi ei flaenoriaethau cyllidebol yn nhymor yr haf ac yn rhoi sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn nhymor yr hydref;

  - *cwynion* (RhS 9.8(iii) ac 21) – bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gŵynion sy'n cael eu cyfeirio ato dan Reol Sefydlog 21;

  - *penodiadau cyhoeddus* (RhS 9.8(iv) ac 20) – bydd y ddau a enwebwyd gan y Pwyllgor ar gyfer penodiadau cyhoeddus yn cymryd rhan yn y broses benodi i gyrff cyhoeddus wrth i swyddi gwag godi;

  - *materion eraill sy'n cael eu cyfeirio gan y Cynulliad* (RhS 9.8 (v)) - bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw faterion eraill y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn eu cyfeirio ato, ond fe hoffai ofyn i Aelodau ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigion yn gwahodd y cyfarfod llawn i roi gwaith yng nghylch gwaith y Pwyllgor.

**Cydweithio a Gweithgareddau Eraill**

6. Lle'n briodol bydd y Pwyllgor yn gweithio â phwyllgorau pwnc eraill ar bynciau perthnasol.  Gall enghreifftiau gynnwys:
   - Cydweithio â'r Pwyllgorau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg a Dysgu Gydol Oes i annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff.

- Cydweithio â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar dwristiaeth ddiwylliannol.

7. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynnal cyfarfodydd ac ymweliadau y tu allan i'r Cynulliad er mwyn deall yn well y materion o fewn portffolio'r Pwyllgor a chael mwy o gyswllt â'r rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

**Dyletswyddau Statudol y Cynulliad**

8. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod dyletswyddau penodol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bydd y canlynol yn llywio gwaith y Pwyllgor:

- *Cyfle Cyfartal (a.48 ac a.120* - bydd cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cynnal yn gyhoeddus ac weithiau y tu allan i adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn i bobl ledled Cymru gael gwell mynediad at ei fusnes. Bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth i gyfle cyfartal ym mhob un o'r materion sydd yn ei bortffolio;

- *Datblygu Cynaliadwy (a.121)* - gydol ei drafodaethau bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr angen i gydbwyso twf economaidd a chymdeithasol â chadwraeth yr amgylchedd, hyn oll trwy ddatblygu cynaliadwy. Bydd yr argymhellion yn ei adolygiad polisi yn adlewyrchu'r egwyddor hon.

**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**
**2 Gorffennaf 2003**

**Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

**BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL**
**Mehefin 2003 - Rhagfyr 2004**

**Rhagarweiniad**

1. Un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad Cenedlaethol yw'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes. Rhestrir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog 9.7 a 9.8.

2. O dan Reol Sefydlog 9.9, rhaid i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglen waith dreigl a fydd yn cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf. Mae Panel y Cadeiryddion wedi cytuno y dylai rhaglenni gwaith y pwyllgorau fod yn strategol ac y dylent ymestyn dros gyfnod o rhwng 18 a 24 mis. Cefnogir y rhaglen strategol hon gan raglenni gwaith manylach sy'n cwmpasu cyfnod o dri mis. Mae'r rhaglen waith hon yn nodi blaenoriaethau strategol y Pwyllgor ar ôl etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhaliwyd ym Mai 2003 ac mae'n ymdrin â'r cyfnod hyd at fis Rhagfyr 2004.

**Cylch Gwaith**

3. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio Jane Davidson AC, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Ymhlith materion eraill, y Gweinidog sy'n gyfrifol am ysgolion, addysg bellach a datblygu sgiliau, addysg uwch, y gwasanaeth ieuenctid a'r gwasanaeth gyrfaoedd.

**Amcanion**

4. Nod y Pwyllgor yw hyrwyddo a hybu'r gwaith o wella ansawdd addysg yng Nghymru yn y tymor hir ac yn barhaus, gan ddarparu mwy o gyfleoedd i bawb yng Nghymru gael addysg o ansawdd uchel ac addysg gydol oes.

Blaenoriaethau

5. Gan fod cylch gwaith mor eang gan y Pwyllgor, mae wedi datblygu dull strategol o fynd ati i gyflawni'i waith. Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf:

- *Datblygu polisïau* Rheol Sefydlog 9.7(i*)* - bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd hynny sy'n ymwneud â datblygu polisi y gall effeithio fwyaf arnynt, a bydd yn ategu'r polisïau y mae'r Gweinidog wrthi'n eu datblygu yn hytrach na'u dyblygu. Rhagwelir y bydd y Pwyllgor yn cynnal adolygiad polisi manylach ar agweddau arbennig ar anghenion addysgol arbennig. Rhagwelir yn ogystal y bydd yr adolygiad hwn yn cychwyn ym mis Medi 2003 ac y bydd yn cael ei gwblhau cyn toriad yr haf yn 2004. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried dewisiadau eraill o ran cynnal adolygiadau polisi.

- *Craffu ar y Gweinidog* Rheol Sefydlog 9.7(ii) - bydd y Gweinidog yn adrodd i'r Pwyllgor bob cyfarfod am ddatblygiadau cyfredol o fewn y portffolio. Unwaith y flwyddyn, bydd y Pwyllgor yn craffu ar y Gweinidog ac yn cymharu ei pherfformiad â'r targedau. Efallai hefyd y bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiynau craffu thematig o bryd i'w gilydd, yn benodol mewn perthynas â darparu rhaglen *Y Wlad Sy'n Dysgu.*

- *Craffu ar y cyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat perthnasol* Rheol Sefydlog 9.7 (iii) - bydd y Pwyllgor yn cadw llygad ar y ffordd y mae'r cyrff canlynol yn cyflawni'u swyddogaethau cyhoeddus: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), y Cyngor Cenedlaethol - ELWa (corff cyllido sy'n ariannu addysg a hyfforddiant ôl 16 yng Nghymru), Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) ac Estyn (Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru):
  - CCAUC - tymor yr hydref 2003 a 2004
  - Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru - tymor yr haf 2003 a 2004
  - ACCAC – tymor yr hydref 2003 a 2004
  - Y Cyngor Cenedlaethol - ELWa - tymor yr hydref 2003 a 2004
  - Estyn - tymor y gwanwyn 2004

- ***Eitemau eraill* Rheol Sefydlog 9.8 - bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr eitemau canlynol wrth iddynt godi:**

  - *deddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru* Rheol Sefydlog 9.8(i) a Rheol Sefydlog 22 – bob tymor, bydd y Gweinidog yn rhoi braslun o'r is-ddeddfwriaeth sydd ar y gweill er mwyn i'r Pwyllgor allu nodi'r meysydd lle'r hoffai roi cyngor yn eu cylch. Ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol drafod araith y Frenhines, bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol ddrafft y bydd y Cyfarfod Llawn yn ei chyfeirio ato. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr is-ddeddfwriaeth ddrafft y bydd y Pwyllgor Busnes yn ei chyfeirio ato.

  - *cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad* Rheol Sefydlog 9.8(ii) – bydd y Pwyllgor yn nodi'i flaenoriaethau o ran dyrannu'r gyllideb yn nhymor yr haf bob blwyddyn ac yn rhoi ei farn am y gyllideb ddrafft yn nhymor yr hydref;

  - *cwynion* Rheolau Sefydlog 9.8(iii) ac 21 – bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion sy'n cael eu cyfeirio ato;

  - *penodiadau cyhoeddus* Rheolau Sefydlog 9.8(iv) a 20 – bydd yr aelodau y mae'r Pwyllgor wedi'u henwebu i benodi pobl i swyddi cyhoeddus yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i swyddi gyda chyrff cyhoeddus pan ddaw'r swyddi'n wag;

  - *materion eraill sy'n cael eu cyfeirio gan y Cynulliad* Rheol Sefydlog 9.8 (v) – bydd y Pwyllgor yn ystyried materion eraill sy'n cael eu cyfeirio ato gan y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys pwyllgorau eraill.

**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A CHEFN GWLAD BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL [DDRAFFT] 2003/4**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r rhaglen waith hon yn amlinellu blaenoriaethau strategol y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddeunaw mis sydd i ddod.

**Cylch gwaith a chyfrifoldebau**

2. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, ac y mae'n cynnwys: yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy; cynllunio gwlad a thref; materion cefn gwlad a chadwraeth; amaethyddiaeth a datblygu gwledig, gan gynnwys coedwigaeth a chynhyrchu bwyd.

3. Nodir cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn Rheol Sefydlog 9, yn bennaf maent i: ddatblygu polisi; craffu ar y Gweinidog a chyrff perthnasol; a chraffu ar y ddeddfwriaeth.

**Nodau**

4. Gan fod gan y Pwyllgor gylch gwaith mor eang, bydd yn datblygu dull strategol i'w waith gyda'r nod o sicrhau cydbwysedd rhwng pynciau'r portffolio yn ogystal â'r cyfrifoldebau.

**Blaenoriaethau**

5. Blaenoriaethau y Pwyllgor am y cyfnod i ddod yw:

- *Datblygu polisi* (Rheol Sefydlog 9.7(i)) – bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd datblygu polisi y gall effeithio fwyaf arnynt. Yn ystod y flwyddyn i ddod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu adolygu testunau o'r meysydd polisi canlynol:

  - Agweddau cynllunio ar dai fforddiadwy a chymunedau cynaliadawy yng nghefn gwlad;
  - Hynt y gwaith o gwrdd â thargedau 2003-04 y strategaeth gwastraff *Yn Gall Gyda Gwastraff;*
  - Amgylchedd y môr.

- *Craffu ar waith y Gweinidog* (Rheol Sefydlog 9.7(ii)) – bydd y Gweinidog yn adrodd i'r Pwyllgor bob tair wythnos ar ddatblygiadau cyfredol o fewn y portffolio. Bydd y Pwyllgor hefyd yn adolygu datblygiadau yn y meysydd canlynol, ac o bosib yn archwilio un neu ddau destun mewn dyfnder:

  - cyfyngiadau ar symud anifeiliaid ac effaith hynny ar hyfywedd marchnadoedd da byw;
  - gwaredu anifeiliaid marw;
  - materion cynllunio sy'n gysylltiedig â lleoli mastiau ffonau symudol;
  - tiwberciwlosis mewn gwartheg;
  - trefniadau diogelu rhag llifogydd;
  - y polisi ar organebau a addaswyd yn enetig;
  - y prosiect ail-gynllunio coedwigoedd;
  - y strategaeth bysgodfeydd.

- *Craffu ar gyrff perthnasol* (Rheol Sefydlog 9.7 (iii)) – bydd y Pwyllgor yn craffu ar waith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Parciau Cenedlaethol Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru a chyrff perthnasol eraill mewn perthynas a'u gweithgareddau ym mhortffolio yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Yn hytrach na chraffu ar eu perfformiad yn erbyn eu holl dargedau, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar agweddau penodol o waith y cyrff perthnasol, neu ar weithredu ar y cyd. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynghori ar adolygiadau pum mlynedd, neu eraill, y cyrff cyhoeddus.

- *Craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru* (Rheolau Sefydlog 9.8(i) a 22) – bydd y Gweinidog yn adrodd yn rheolaidd ar is-ddeddfwriaeth arfaethedig a bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol a gynigir. Bydd y Pwyllgor yn dewis craffu ar eitemau o blith yr eitemau o ddeddfwriaeth lle mae cyfle i'r Pwyllgor ddylanwadu arnynt. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried is-ddeddfwriaeth ddrafft a gyfeiriwyd ato gan y Dirprwy Lywydd, fel bo'n briodol.

- *Eitemau eraill (*Rheol Sefydlog 9.8) – bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried yr eitemau canlynol wrth iddynt godi:

  - *cynigion ar gyfer dyrannu cyllideb y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8 (ii)) – bydd y Pwyllgor yn mynd ati yn ystod tymor yr haf i nodi ei flaenoriaethau o ran dyrannu'r gyllideb a bydd yn gwneud sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref;

  - *cwynion* (Rheolau Sefydlog 9.8(iii) ac 21*)* - bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeiriwyd ato o dan Rheol Sefydlog 21;

  - *penodiadau cyhoeddus* (Rheolau Sefydlog 9.8(iv) ac 20) – bydd y ddau a enwebwyd gan y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i swyddi gyda chyrff cyhoeddus pan ddaw'r swyddi'n wag;

  - *unrhyw faterion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad* (Rheol Sefydlog 9.8 (v)) – bydd y Pwyllgor yn ystyried materion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad Cenedlaethol, ond hoffai ofyn i'r Aelodau ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigion sy'n gwahodd y cyfarfod llawn i gyfeirio gwaith at y Pwyllgor.

**Dyletswyddau Statudol y Cynulliad**

6. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod rhai dyletswyddau ar y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff gwaith y Pwyllgor ei arwain gan y canlynol:

- *Cyfle Cyfartal (adran 48 ac adran 120)* – cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor yn gyhoeddus ac o bryd i'w gilydd y tu allan i adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ei fusnes o fewn cyrraedd pobl ledled Cymru. Dros yr ystod o faterion o fewn ei bortffolio, bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw i gyfle cyfartal;

- *Datblygu Cynaliadwy (adran 121)* – drwy ei drafodaethau bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr angen i daro cydbwysedd rhwng twf economaidd a chymdeithasol a chadwraeth amgylcheddol, a hynny drwy ddatblygu cynaliadwy. Bydd argymhellion adolygiad polisi y Pwyllgor yn adlewyrchu'r egwyddor hon. Gan fod cydlynu datblygu cynaliadwy yn rhan o gyfrifoldebau'r Gweinidog, bydd y Pwyllgor yn ymgymryd â gwaith datblygu polisi neu graffu manwl yn y maes hwn.

**Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**
[Mehefin 2003]

**Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU CYHOEDDUS BLAENRAGLEN WAITH STRATEGOL 2003/4**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r rhaglen waith hon yn amlinellu blaenoriaethau strategol y Pwyllgor ar gyfer y deuddeg i ddeunaw mis nesaf.

**Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau**

2. Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn seiliedig ar bortffolio Gweinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, ac mae'n ymwneud â llywodraeth leol, meithrin dull strategol o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, a Chynllun Gofodol Cymru. Nid yw'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Gweinidog mewn perthynas â chyllid y Cynulliad na materion polisi neu ariannol sy'n perthyn i bortffolio arall yn unig.

3. Dyma brif gyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc yn ôl Rheol Sefydlog 9: datblygu polisi; craffu ar waith Gweinidogion a chyrff perthnasol; a chraffu ar ddeddfwriaeth.

**Amcanion**

4. Bydd y Pwyllgor yn meithrin dull strategol o weithio ac yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng pynciau'r portffolio a'i holl gyfrifoldebau.

Blaenoriaethau

5. Y blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod sydd i ddod:

– *Datblygu polisi (RhS 9.7(i))* – bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar y meysydd datblygu polisi y bydd modd iddo ddylanwadu fwyaf arnynt. Yn ystod y cyfnod sydd i ddod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu adolygu testunau o'r meysydd polisi isod:

  – *rhoi trefniadau craffu newydd ar waith mewn llywodraeth leol*;
  – *rôl cynghorau tref a chynghorau cymuned;*
  – *annog mwy o ymgeiswyr i sefyll mewn etholiadau lleol.*

– *Craffu ar waith y Gweinidog (RhS 9.7(ii))* – bydd y Gweinidog yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor am ddatblygiadau cyfredol yn ei phortffolio bob yn ail gyfarfod. Caiff y Pwyllgor gynnal ymchwiliadau manwl i bynciau penodol hefyd.

– *Craffu ar waith cyrff perthnasol (RhS 9.7 (iii))*– bydd y Pwyllgor yn ystyried gwaith Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Uned Cydraddoldeb Llywodraeth Leol, Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru, Syniad a'r Comisiwn Archwilio.

– *Craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n effeithio ar Gymru (RhS 9.8(i) a 22)* – bydd y Gweinidog yn amlinellu is-ddeddfwriaeth arfaethedig yn rheolaidd a bydd y Pwyllgor yn cael gwybod am ddeddfwriaeth sylfaenol berthnasol a gynigir. Bydd y Pwyllgor yn dewis craffu ar ddeddfwriaeth os oes modd iddo ddylanwadu ar ei chynnwys a bydd hefyd yn ystyried yr is-ddeddfwriaeth ddrafft y mae'r Dirprwy Lywydd yn ei chyfeirio at y Pwyllgor yn ôl y galw.

**Bydd y Pwyllgor yn ystyried y materion hyn pan fyddant yn codi:**

- *cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad* (RhS 9.8(ii)) – bydd y Pwyllgor yn nodi ei flaenoriaethau ar gyfer y gyllideb yn ystod tymor yr haf a bydd yn rhoi sylwadau ar y gyllideb ddrafft yn ystod tymor yr hydref;

- *cwynion* (RhS 9.8(iii) a 21) – bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gwynion a gyfeiriwyd ato o dan Reol Sefydlog 21;

- *penodiadau cyhoeddus* (RhS 9.8(iv) a 20) – bydd y ddau Aelod a enwebwyd gan y Pwyllgor yn cymryd rhan yn y broses o benodi pobl i gyrff cyhoeddus pan fo'r cyfle'n codi;

- *unrhyw faterion eraill a gyfeiriwyd ato gan y Cynulliad* (RhS 9.8 (v)) – bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw faterion eraill y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu cyfeirio ato, ond gofynnir i'r Aelodau ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor cyn cyflwyno cynigion yn gwahodd y cyfarfod llawn i roi gwaith i'r Pwyllgor.

**Dyletswyddau Statudol y Cynulliad**

6. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod rhai dyletswyddau penodol ar y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y materion isod yn llywio gwaith y Pwyllgor:

- *Cyfle Cyfartal (adran 48 ac adran 120)* – cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor yn gyhoeddus ac o bryd i'w gilydd mewn man heblaw adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod ei fusnes o fewn cyrraedd pobl ledled Cymru. Bydd y Pwyllgor yn ystyried cyfle cyfartal wrth iddo fynd i'r afael â'r holl faterion yn ei bortffolio;

- *Datblygu Cynaliadwy (adran 121)* – yn ystod ei holl drafodaethau, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr angen i gadw'r ddysgl yn wastad rhwng twf economaidd a chymdeithasol a diogelu'r amgylchedd, a hynny drwy ddatblygu cynaliadwy. Bydd argymhellion ei adolygiadau polisi yn adlewyrchu'r egwyddor hon.

**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Mehefin 2003

**Materion allweddol i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus eu hystyried**

Gorffennaf 2003

- Blaenoriaethau'r gyllideb ar gyfer prif grwp gwariant llywodraeth leol;
- Ailbrisio ac ailfandio treth y cyngor;
- *The Local Authorities (Allowances for Members of County and County Borough Councils) (Past Service Awards) (Wales) Regulations 2003*;
- *Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Pensiynau) (Cymru) 2003*.

Blaenoriaethau i'w hystyried yn ystod tymor yr hydref 2003

- Is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o wneud y Mesur Llywodraeth Leol yn ddeddf;
- Casglu tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad o dan arweiniad y Pwyllgor i weithrediad strwythurau rheoli gwleidyddol newydd;
- Setliad Refeniw Llywodraeth Leol 2004-05;
- Y camau a gymerwyd i roi ar waith argymhellion Adroddiad y Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru (*Adroddiad Sunderland*);
- Canlyniad yr arolwg o rôl a swyddogaethau cynghorau tref a chymuned.

Materion eraill i'w cynnwys yn y rhaglen pan fo'n briodol:

- Rhoi Cynllun Gofodol Cymru ar waith;
- Gwaith Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- Monitro llwyddiant strategaethau cymunedol, patrymau gwario ym maes llywodraeth leol a threfniadau polisi wrth roi amcanion polisi cenedlaethol ar waith;
- Gwaith y cyrff isod:
  - i) Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru;
  - ii) Uned Cydraddoldeb Llywodraeth Leol;
  - iii) Syniad;
  - iv) Uned Ddata Llywodraeth Leol;
  - v) *Un Llais* – cymdeithas cynghorau tref a chymuned Cymru;
- Monitro perfformiad yr awdurdodau lleol ac effaith Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella;
- Ystyried canlyniadau'r arolwg *Lleisiau Lleol* i glywed barn y cyhoedd am wasanaethau llywodraeth leol;
- Rhoi'r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol ar waith;
- Rhoi cynlluniau'r Fenter Cyllid Preifat ar waith yng Nghymru.

**PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 2 Gorffennaf 2003 |
| **Amser:** | 9.30am to 12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**BLAENRAGLENNI GWAITH**

**Pwrpas**

1. Gwahodd y Pwyllgor i gytuno ar ddulliau o weithio a'i flaenoriaethau ar gyfer y deuddeg i ddeunaw mis nesaf a chytuno ar raglen waith fanwl ar gyfer tymor yr hydref 2003.

**Rhaglen Waith Strategol**

2. Mae Rheol Sefydlog 9.9 yn ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau pwnc gynnal rhaglen waith dreigl a fydd yn cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf, ac adrodd ar eu hynt o bryd i'w gilydd i'r Cynulliad.

3. Mae'r **rhaglen waith strategol ddrafft yn Atodiad 1** yn awgrymu ffyrdd o weithio sy'n anelu at gadw cydbwysedd rhwng cyfrifoldebau datblygu polisi a chyfrifoldebau archwilio'r Pwyllgor. Cytunwyd ar feysydd posib i'w hystyried yn y cyfarfod ar 11 Mehefin,

er enghraifft dewis un neu ddau bwnc i'w harchwilio'n fanwl neu waith datblygu polisi.

**Rhaglen Waith Fanwl**

4. Cafodd y **rhaglen waith fanwl yn Atodiad 2** ei llunio o bynciau a awgrymwyd gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai blaenorol, pwyntiau gweithredu ac eitemau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

5. Mae'r rhaglen ddrafft yn cynnwys cyfle i gael cyflwyniadau gan sefydliadau y mae'r Aelodau wedi dangos diddordeb ynddynt, a darpariaeth i gynnal adolygiad polisi'r Pwyllgor ar dai i bobl h^yn a'r stoc dai sy'n heneiddio a phroblemau cysylltiedig. Hefyd, rhoddwyd ystyriaeth i'r ffaith bod angen i'r Gweinidog hysbysu'r Pwyllgor, ymgynghori ag ef a gwrando ar ei safbwyntiau ar rai pynciau. Mae'r rhaglen hefyd yn ymgorffori safbwynt y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor gyfarfod y tu hwnt i Fae Caerdydd.

**Argymhelliad**

6. Bod y Pwyllgor yn cytuno ar ddulliau o weithio a amlinellir yn y rhaglen waith strategol ddrafft (Atodiad 1) a rhaglen waith fanwl tymor yr hydref 2003 (Atodiad 2).

**Roger Chaffey**
**Clerc y Pwyllgor**

**Mehefin 2003**